Dyddiad: Dydd Llun 14 Mawrth

Amser: 18:30

Lleoliad: Prif Ystafell yr Undeb

Yn bresennol:

Dan Meehan (yn cymryd nodiadau)

## 1. Croeso a Chyflwyniadau

Dechreuodd y cyfarfod am 18:40 gyda'r Is Gadeirydd (LE) yn croesawu pawb sy'n bresennol i'r cyfarfod a'u diolch am fynychu. Hefyd, darparodd yr Is Gadeirydd drosolwg o sut y buasai'r cyfarfod yn gweithredu a'r hyn a fuasai yn yr agenda.

## 2. Adroddiadau'r Swyddogion

Gweithgareddau: Rhoddodd KK drosolwg o'i gweithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys Superteams, paratoadau ar gyfer Rhyngolgampau Farsiti a lobïo'r Brifysgol dros well darpariaeth ar gyfer Gweithgareddau.

Addysg: Darparodd LM y diweddaraf ar ei gwaith ers y cyfarfod diwethaf, gan ddwyn sylw at Gyflwyniad y Myfyrwyr, Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr a mynychu'r Gynhadledd.

Materion Cymreig ac UMCA: Nid oedd HM yn bresennol yn y cyfarfod, felly siaradodd LM ar ei rhan. Rhoddodd LM grynodeb o'i gwaith HM ers y cyfarfod diwethaf, gan ofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r newidiadau canlynol o ran goleuadau traffig:

a. Y Gymraeg ar y Campws
   *Pleidlais: 36 O blaid, 2 Yn erbyn, 4 Ymatal*
b. Cymraeg i Ddysgwyr
   *Pleidlais: 36 O blaid, 2 Yn erbyn, 4 Ymatal*

Rhoddwyd cymeradwyaeth i bob newid yn y goleuadau traffig a gynigiwyd.

Lles: Rhoddodd IG grynodeb o'i waith ers y cyfarfod diwethaf, gan ofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r newidiadau canlynol o ran goleuadau traffig:

a. Gwastraff Bwyd a Llety

   *Pleidlais: 41 O blaid, 0 Yn erbyn, 1 Ymatal*

b. Iechyd Rhywiol - Condomau am Ddim

   *Pleidlais: 43 O blaid, 1 Yn erbyn, 1 Ymatal*

Rhoddwyd cymeradwyaeth i bob newid yn y goleuadau traffig a gynigiwyd.

## 3. Eich Syniadau

a. **Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer yr holl staff a chyflog sydd ddim yn gwahaniaethu ar sail oedran ar y campws:** Cyflwynodd Alastair Wager (AW) yr achos dros gael y polisi wedi'i fabwysiadu gan Gyngor yr Undeb.

   *Cwestiwn o'r Llawr*: "Faint fyddai'r polisi hwn yn costio i Undeb y Myfyrwyr?"

   *Pwynt o Wybodaeth:* Hysbysodd LD y Cyngor mai'r amcangyfrif o gost y polisi hwn fyddai £13,000 y flwyddyn, a bod y penderfyniad, yn y pen draw, yn perthyn i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

   *Cwestiwn o'r Llawr*: "Ydych chi'n credu y gall Undeb y Myfyrwyr gyllido cynnydd mewn cyflogau?" Dadleuodd AW ei fod yn credu y gallai Undeb y Myfyrwyr gyllido'r gost.

   *Pwynt o Wybodaeth:* Esboniodd LM y broses sy'n perthyn i weithredu polisi o'r natur yma, gan ddwyn sylw at y ffaith mai'r nod yw argymell i'r Bwrdd y dylid mabwysiadu'r polisi hwn.

   *Yn Siarad yn Erbyn:* Siaradodd Alex Tidy (AT) yn erbyn y syniad, gan gyfeirio at y baich ariannol sydd gan Undeb y Myfyrwyr eisoes.

   *Yn Siarad o Blaid:* Siaradodd AW o blaid y syniad, gan ddadlau bod yno amryw o Undebau eraill tebyg i ni sy'n gweithredu'r polisi hwn. Dylai fod ynglŷn ag egwyddorion, nid dim ond arian.

*Yn Siarad yn Erbyn:* Siaradodd Ed Swan (ES) yn erbyn y syniad, gan ddadlau bod gormod o werth yn cael ei osod ar gyflogau; gofynnodd pam bod angen i ni gynyddu cyflogau?
*Yn Siarad o Blaid:* Dadleuodd aelod o blaid y polisi, gan nodi bod camwahaniaethu ar sail oedran o ran cyflogau'n annheg, ac y dylid talu cyflog teg i bobl am eu gwaith.

*Yn Siarad yn Erbyn:* Dadleuodd aelod os nad yw Undeb y Myfyrwyr yn gallu fforddio'r cynnydd, yna ni ddylid cyflwyno'r polisi.
*Crynodeb:* Rhoddodd AW grynodeb o'i ddadl, gan atgoffa'r Cyngor y caiff y polisi hwn ei basio ymlaen i'r Bwrdd, a fydd wedyn yn gwneud y penderfyniad terfynol.

*Pleidlais: 32 O blaid, 10 Yn erbyn, 6 Ymatal*

Mae'r syniad yn pasio

b. **Oes unrhyw un yn gwneud unrhyw beth o gwbl a pha mor dlawd ydyn ni?**
Cyflwynodd AT ei syniad, gan esbonio ei fod yn siarad yn bennaf ar y system goleuadau traffig, a'r ffaith nad oes llawer o gynnydd i'w weld.
*Yn Siarad yn Erbyn:* Siaradodd LD yn erbyn y syniad, gan ateb amryw o'r cwestiynau a holwyd yn y cyflwyniad. Cymerodd KK drosodd oddi wrth LD i ateb y cwestiynau oedd yn weddill yn y cyflwyniad.

Gofynnodd y Cadeirydd os yw AT yn hapus â'r ymatebion a ddarparwyd a sut mae e am fwrw ymlaen. Nododd AT ei fod yn hapus â'r ymateb ac nad oedd am barhau â'r Bleidlais o Ddiffyg Hyder.

Tynnwyd y syniad yn ôl

## 4 Cofiwch y Dyddiad!

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar **dydd Mawrth 3ydd Mai 2016 am 6:30pm**.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:24pm